# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT(2) 02-06

### Dyddiad y cyfarfod: 26 Ionawr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 -11.32
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Dr Robin Fears | Cynghorydd Arbenigol |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Dr Anita Shaw | Cyfarwyddwr Datblygu, Techniquest a Chadeirydd WISE yng Nghymru | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Virginia Chambers | Cyfarwyddwr Technoleg ac Arloesi | 3 |
| Anthony Armitage | Uwch Reolwr y Rhaglen Dechnoleg | 3 |
| Dr George Baxter | Pennaeth Arloesi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 4 |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew Davies, Carl Sargeant a Kirsty Williams. Croesawodd y Cadeirydd Mick Bates a oedd yn dirprwyo ar ran Kirsty Williams.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael

1.4 Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod ar ôl yr eitem gyntaf. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.20, penododd y Pwyllgor Alun Cairns yn Gadeirydd dros dro am weddill y cyfarfod.

### Eitem 2: Women into Science, Engineering and Construction (WISE)

### Papur: EDT(2) 02-06 (p.1)

2.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

### Camau Gweithredu:

- Cytunodd y Dr Anita Shaw i ddarparu i'r Pwyllgor gopi o astudiaeth ddiweddar a wnaed gan WISE ynghylch dysgu pynciau gwyddonol i ferched ifanc ar wahân mewn ysgolion.
- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am ragor o wybodaeth am gyflwyno TGAU mewn gwyddoniaeth gyfoes yn 2008.

## Eitem 3: Awdurdod Datblygu Cymru

## Papur: EDT(2) 02-06 (p.2)

3.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

## Eitem 4: Awdurdod Datblygu Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr

## Papur: EDT(2) 01-06 (p.3)

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

## Camau Gweithredu:

- Cytunodd y Dr George Baxter i ddarparu i'r Pwyllgor y mesuryddion perfformiad sylfaenol y mae Awdurdod Datblygu Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr yn eu defnyddio.

## Eitem 5: Rhaglen Is-ddeddfwriaeth ym maes Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Papur: EDT(2) 02-06 (p.4)

5.1 Nododd y Pwyllgor y Rhaglen Is-ddeddfwriaeth.

## Camau Gweithredu:

- Nododd y Pwyllgor dair eitem newydd i graffu arnynt maes o law:

-Rheoliadau Priffyrdd (Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006;

-Gorchymyn Cychwyn, Deddf Trafnidiaeth Cymru

-Gorchmynion sy'n deillio o Ddeddf Trafnidiaeth Cymru.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau